



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Chwefror 2018 am 6.30yh
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 February 2018 at 6.30pm
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Richard Jones (*yn y gadair/in the chair*),
John Adams-Lewis, Clive Davies, Graham Evans, Marilyn Farmer, Wyn Jones, Siân Maehrlein,
Catrin Miles, Steffan Morgan, Trystan Phillips, Shan Williams.

1. **Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.** The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Richard Jones, bawb i'r cyfarfod yn cynnwys aelod o'r wasg a dwy aelod o'r cyhoedd. Cyfeiriodd at anhwylddeb y Cyng. Yvonne O'Neill wedi ymweliad ag ysbyty gan ddymuno gwellhad llwyr iddi. Llongyfarchodd y Cyng. John Adams-Lewis, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Aberteifi, yr ysgol am gael ei chynnwys yn dilyn archwiliad Estyn ymhlith y rhestr uchaf o ysgolion y wlad sydd yn y bandin gwyrdd am y drydedd flwyddyn yn olynol. Yn yr un modd, llongyfarchwyd Ysgol Uwchradd Aberteifi hefyd am lwyddo i gyrraedd y band gwyrdd. Cytunwyd bod y clerc yn anfon llythyr i longyfarch y ddwy ysgol.

Nodwyd gan y clerc bod heddiw (6 Chwefror) yn ddathliad canmlwyddiant i fenywod ennill pleidlais yn y flwyddyn 1918. Mae'r berthnasol i gofnodi bod Cyngor Tref Aberteifi, am y tro cyntaf yn ei hanes, yn hawlio cyfartaledd o amgylch bwrdd y siambr gyda saith dyn a saith menyw yn gwasanaethu fel cyngorwyr.

The Mayor, Cllr Richard Jones, welcomed all to the meeting including a press officer and two members of the public. He wished Cllr Yvonne O'Neill a swift recovery following her short stay in Glangwili Hospital. Cllr John Adams-Lewis, in his role as chairman of governors of Ysgol Gynradd Aberteifi, congratulated the school on achieving the green band for the third year following the Estyn schools' inspection. Likewise, Ysgol Uwchradd Aberteifi was congratulated on achieving the same category. It was agreed that the clerk forwards a letter of commendation to both schools.

The clerk noted that today (6 February) is the centenary celebration of women obtaining the right to vote for the first time in 1918. It wouldn't be amiss to note that Cardigan Town Council for the very first time in its long history has equal representation in the council chamber with seven men and seven women serving as councillors. The Representation of the People Act was passed on 6 February 1918 and gave women aged over 30 and "of property" the right to vote.

2. **Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng. / Cllrs Yvonne O'Neill (*anhwylddeb/unwell*), Debra Griffiths (*anhwylddeb/unwell*), Elaine Evans (*gwaith/work commitments*)

3. **Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.** Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	Materion cynllunio / All planning matters
---------------------------------	---

- 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 9 Ionawr.**
Confirmation of Minutes of 9 January Council Meeting.
Tud. 1318, eitem 9(b)(iv): Nid yw'r gwaith wedi ei gyflawni eto. Mae'r cywiriadau i fur cei Tywysog Siarl wedi derbyn y golau gwyrdd gan y cyngor sir i symud ymlaen â'r gwaith.
Page 1319, item 9(b)(iv): The wall, as yet, has not been repaired. Completion of the work has been sanctioned by the county council.
Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod cofnodion cyfarfod 9 Ionawr yn gywir.
With the above amendment, Cllr Marilyn Farmer proposed that the 9 January council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr John Adams-Lewis.
- 5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor 10 Ionawr.**
Confirmation of Minutes of 10 January Council Special Meeting.
Cynigiwyd gan y Cyng. Trystan Phillips ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies bod cofnodion cyfarfod arbennig 10 Ionawr yn gywir.
Cllr Trystan Phillips proposed that the 10 January council special meeting minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Clive Davies.
- 6. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Cyllideb y Cyngor 17 Ionawr.**
Confirmation of Minutes of 17 January Council Budget Meeting.
Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod cofnodion cyfarfod y gyllideb ar 17 Ionawr yn gywir.
Cllr John Adams-Lewis proposed that the 17 January council budget meeting minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.
- 7. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**
Tud. 1318, eitem 8(a): Yn dilyn y craffu, cytunwyd bod y biliau oedd yn ymwneud â'r goleuadau Nadolig yn cael eu talu fel nodwyd yn y cofnodion.
Tud. 1321, eitem 3(b)(i): Cyflwynwyd drafft o'r dystysgrif i'w chyflwyno i Jamie Lewis er mwyn ei chymeradwyo gan yr aelodau.
Tud. 1321, eitem 13(d)(i): Mae Mr Elfed Roberts, Prif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol, wedi datgan y bydd y cyhoeddiad am leoliad Eisteddfod 2020 yn digwydd o fewn y mis neu ddau nesaf.
Page 1318, item 8(a): Following scrutiny by the clerk and members, it was resolved to pay the Christmas lights invoices as noted in the minutes.
Page 1321, item 13(b)(i): The clerk produced a draft copy of the certificate to be presented to Jamie Lewis for approval by members.
Page 1321, item 13(d)(i): Mr Elfed Roberts, the National Eisteddfod Chief Executive, has stated that an announcement regarding the selection of location of the 2020 Eisteddfod will be made public within the next two or three months.
- 8. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**
Activities of the Mayor. Dates for the diary.

9. Cynllunio / Planning.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Observations</i>
A180081	Former Co-operative Store, Quay Street	<i>Newid defnydd o archfarchnad i Ganolfan Gristnogol Bywyd Newydd gyda gweithgareddau cysylltiedig.</i> Change of use from supermarket to New Life Christian Centre with associated activities.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

Cynigiwyd y sylwadau uchod gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan.

The above observations were proposed by Cllr Graham Evans and seconded by Cllr Steffan Morgan.

10. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/2/18	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Ionawr / January).	A9	D/D	£250.00 (0.00)
	Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (9, 10, 17 & 23 Ionawr / January)	A9	4514	£100.00 (0.00)
	Band Lydan (Chwefror) / Broadband (February)	A20	4514	£20.00 (0.00)
24/1/18	Llinos Jones: Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (9/1/18 & 17/1/18)	A18	4515	£134.10 (0.00)
31/1/18	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Ionawr / January)	A3	4516	£756.36 (0.00)
15/1/18	Argraffwyr E. L. Jones Printers: Tystysgrifau, Cardiau Nadolig / Christmas window certificates, Christmas cards and postage.	A7	4517	£140.40 (20.40)
	Tafleenni Sul y Cadoediad / Remembrance Service leaflets and notices.	A23	4517	£106.40 (2.40)
	Deunydd swyddfa / Office stationery	A7	4517	£40.80 (6.80)
6/2/18	Midshire: Ôl-daliad cyfrif (cyfanswm £831.63 + VAT) 6 monthly instalments of £166.33 (incl. VAT) back payment (5th instalment)	A17	4518	£166.33 (27.72)
23/1/18	Telemat: Ailgofrestru enw parth / re-registering name: cyngor@trefaberteifi.cymru	A20	4519	£17.40 (2.90)
31/1/18	Mr Justin Percival, Flat 1, 29 Pendre: Cyflenwad trydan / Supply of electricity for Christmas lights	B1	4520	£50.00 (0.00)
6/2/18	Lisa Hellier: Ail randal am y gwaith ar y mapiau i'r byrddau dehongli. Second instalment for the new interpretation panels to include additional licence granted for annual use on town app per annum to include minor updates.	B9	4521	£700.00 (0.00)
				£200.00 (0.00)
31/1/18	Bachan Deche / Handyperson: (Ionawr / January)	A19	4522	£138.60 (23.10)

Cynigiodd y Cyng. Steffan Morgan bod yr holl biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer.

Cllr Steffan Morgan proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

11. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Diolchwyd i'r Cyng. Graham Evans am gynorthwyo i glirio'r llanast ger y biniau ym maes parcio Stryd y Cei yn dilyn y gorlifiad o boteli wedi'r Nadolig. Cynghorwyd bawb i gysylltu gyda'r cwmni (LAS ar 01570 421421) pe bai problem yn y dyfodol.
- (ii) Yn dilyn y cwynion am arwyddion aneglur ar y Stryd Fawr, mae'r Cyng. Miles wedi cysylltu gyda'r cyngor sir i ofyn i'r adran ystyried ail-wneud yr arwyddion yn glir.

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod y gwaith ger yr ysbyty i greu palmant lletach a chyrbiau is, er ei fod wedi creu anawsterau i fodurwyr, yn gymorth mawr i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a cherddwyr yn ogystal.

(a) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Graham Evans was thanked for clearing the huge overflow of litter and bottles abandoned alongside the bins at the Quay Street car park following the Christmas holidays. The public is urged to contact the company responsible for the emptying of the bins (LAS on 01570 421421).
- (ii) Following complaints regarding the illegible signage on the High Street, Cllr Miles has contacted the appropriate county council department to make good the problem.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis stated that the work to widen the pavements and insert dropped kerbs near the hospital, although creating traffic problems, was of benefit to wheelchair users and pedestrians generally.

12. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
210	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Maesglas, Heol Helyg: gwaith cylfat newydd / new culvert works, 29/1/18 - 23/3/18</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 15/1/18. <i>Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod y gwaith wedi ei gefnogi gan grant sylweddol oddi wrth Lywodraeth Cymru a bydd yn lleihau'r broblem o orlifo yn yr ardal.</i> Cllr Adams-Lewis stated that the work was supported by a considerable grant from the Welsh Government; the improvements would alleviate greatly the on-going problem of flooding in the area.
211	CSC / CCC (Marianne De Vries): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Stryd Fawr / High Street: atgyweiriadau brys i brif gyflenwad trydan / emergency repairs to electricity supply, 4/2/18</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 30/1/18.
212	CSC / CCC (Marianne De Vries): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Stryd y Cei / Quay Street: cynnal a chadw nwy / gas maintenance, 30/1/18</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 23/1/18.
213	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Rhes y Frenhines / Queen's Terrace: arwynebu'r droedffordd / resurfacing footway, 19/2/18 - 2/3/18</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 1/2/18. <i>Dywedodd y Cyng. Miles y byddai goleuadau i reoli'r drafnidiaeth yn Stryd y Cei yn gymorth.</i> Cllr Miles stated that traffic-controlling lights at Quay Street would assist the flow of vehicles.
214	CSC / CCC (Eifion Evans): <i>Parcio ar Ffordd Gwbert / Parking on Gwbert Road.</i>	<i>Copi o lythyr at Mr J. E. Jones.</i> Copy of letter to Mr J. E. Jones stating that it was decided not to amend the existing arrangements at this location.
215	CSC / CCC (Alun Williams): <i>Dyfarnu cyllid o £3,000 tuag at ddarparu cyfarpar i Gae Chwarae Pentop. Derbyniwyd ail gynnydd wedi ei ddiwygio i £4,082.</i> Award of £3,000 funding towards the supply of play equipment for the Pentop Play Area. A revised offer of £4,082 was received on 2/2/18.	<i>Mae copiau wedi eu blaenyrru at y Cyng. Catrin Miles.</i> Copies forwarded to Cllr Catrin Miles on 30/1/18 and 6/2/18. <i>Mae'r clerc wedi arwyddo'r ddogfen er mwyn hawlio'r grant. Diolchwyd i'r Cyng. Miles am lywio'r gwaith.</i> The clerk has signed the document to claim the grant. Cllr Miles was thanked for her assistance with the grant forms.
216	CSC / CCC (Alan Haird): <i>Trefniant ynglŷn â briffio cynghorwyr am gynllun "Place Plans".</i> Plans to organise a briefing meeting for local councils to discuss the "Place Plans" project.	<i>Cynhelir cyfarfod ar y cyd â chynghorau bro'r ardal i elguro'r cynllun yn y Castell ar 20 Chwefror am 7.00yh.</i> A joint meeting with local community councils will be held at the Castle on 20 February at 7.00pm.
217	CSC / CCC (Katy Spain): <i>Ymgynghori ar ddiwygiadau arfaethedig yng Ngorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2012 – Maes Parcio Pendre.</i> Consultation on the proposed amendments to the Ceredigion County Council (Off Street Parking Places) (Consolidation) Order 2012 – Pendre Car Park.	<i>Cytunwyd cefnogi'r cynigion i ailosod y maes parcio i'r cyhoedd gan ei fod yn fan addas i siopwyr canol y dre.</i> <i>Awgrymwyd hefyd awr parcio am ddim yn y bore.</i> It was resolved to support the proposals to return the car park to public use which will be of benefit to local consumers. It was also suggested to request an hour's free parking in the mornings. Proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Steffan Morgan.
218	<i>Hywel Dda Cynghorau Iechyd Cymuned: Cais i gyflwyno gwybodaeth i'r cyngor.</i> Hywel Dda Community Health Council: Request to address the council to discuss the Health Board's "Transforming Clinical Services" options.	<i>Cytunwyd gwahodd siaradwr i gyfarfod yr Is-bwyllgorau ar 17 Ebrill.</i> It was agreed to invite a speaker to the 17 April Sub-committee meeting.
219	Ben Lake AS/MP: <i>Llythyr o gyflwyniad a phosteri cymorthfeydd i'w harddangos.</i> Letter of introduction and advice surgery posters.	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed in the notice board.
220	Elin Jones AC / AM: <i>Llythyr a phosteri cymorthfeydd i'w harddangos.</i> Letter and advice surgery posters.	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed in the notice board.

221	<p><i>Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru: Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion (Cynigion Drafft).</i> Local Democracy and Boundary Commission for Wales: Review of Electoral Arrangements for the County of Ceredigion (Draft Proposals)</p>	<p><i>Mae'r dogfenni ar gael gan y clerc.</i> The document is available with the clerk. <i>Am ragor o wybodaeth / For further information: www.cffdl/llyw.cymru.</i> <i>Dyddiad cau / Closing date of consultation: 16/4/18.</i> <i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau 20 Mawrth.</i> To be discussed at the 20 March sub-committee meeting.</p>
222	<p>Michael Jefferies (Injury Lawyers): <i>Damwain yn Stryd Wiliam (14/6/17). Mae'r clerc wedi anfon yr wybodaeth angenrheidiol ymlaen.</i> Accident to a member of the public in William Street (14/6/17). The clerk has forwarded the relevant information.</p>	<p><i>Nodwyd</i> Noted.</p>
223	<p>Mr James Coughlan, New Mill Road: <i>Gohebiaeth yn datgan ei bryder am y sbwriel a'r gwastraff plastig yn yr ardal.</i> Correspondence expressing his concerns at the litter and plastic waste in the area. Mae'r grŵp "Plastic Free Cardigan Town" wedi trefnu casgliad sbwriel o gylchfan Tesco hyd gylchfan yr ysbyty.</p>	<p><i>Dywedodd y Cyng. Steffan Morgan y byddai'n siarad â swyddog Tesco am y gwastraff a'r orbwyslais ar becynnau plastig a bod grŵp Gwaredu Plastig Aberteifi yn bwriadu casglu sbwriel o arfarchnad Tesco i lawr hyd gylchfan yr ysbyty.</i> <i>Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis siarad â'r cyngor sir am y llanast ar hyd Lôn y Felin Newydd.</i> Cllr Steffan Morgan stated that he would discuss the problem with a member of staff at Tesco and highlight the problem of plastic packaging. The Plastic-free Cardigan Town group has arranged to collect rubbish from Tesco to the hospital roundabout. Cllr Adams-Lewis agreed to discuss the New Mill Road litter problem with the county council.</p>
224	<p>Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd National Eisteddfod Cardiff (2018): <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i></p>	<p><i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants sub-committee.</p>
225	<p><i>Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion Young Farmers' Club: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i></p>	<p><i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants sub-committee.</p>
226	<p>Samaritans / <i>Samariaid: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i></p>	<p><i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants sub-committee.</p>
227	<p>Tenovus: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i></p>	<p><i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants sub-committee.</p>
228	<p>Pwyllgor Carnifal Aberteifi: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i></p>	<p><i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants sub-committee.</p>
229	<p>Gŵyl Fawr Aberteifi: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i></p>	<p><i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants sub-committee.</p>
230	<p>Theatr Felinfach: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i></p>	<p><i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants sub-committee.</p>
231	<p>Dean James, 11 Preseli View, Llechryd: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i> <i>Nid yw'r ddeddf yn caniatáu i gynghorau gynorthwyo unigolion yn ariannol.</i> Section 137 does not allow an individual to request financial assistance from the council.</p>	<p><i>Gofynnwyd i'r clerc hysbysu Dean i geisio am gymorth oddi wrth Mrs Meinir Davies, swyddog grantiau'r cyngor sir, ac i ofyn i Scouts Cymru wneud cais ar y cyd.</i> The clerk was asked to advise Dean to request assistance from Mrs Meinir Davies, the county council grant facilitator, and to ask the Scouts Cymru movement to make a joint application.</p>
232	<p><i>Cylch Cinio Teifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i Ginio Gŵyl Ddewi y cymdeithasau Cymraeg, 2/3/18 yng Ngwesty'r Cliff.</i> An invitation to the Mayor and Mayoress to the St David's Day Dinner, Cliff Hotel on 2/3/18.</p>	<p><i>Mae'r gwahoddiad wedi ei anfon ymlaen at y Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.</p>
233	<p><i>Maer a Maeres Castellnewydd Emlyn / Mayor and Mayoress of Newcastle Emlyn: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i Ddawns Elusennol.</i> An invitation to the Mayor and Mayoress to a Charity Dance at NCE RFC on 16/3/18.</p>	<p><i>Mae'r gwahoddiad wedi ei anfon ymlaen at y Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.</p>
234	<p><i>Clwb Bowls Aberteifi / Cardigan Bowls Club: Gwahoddiad i'r Maer agor y tymor newydd.</i> An invitation to the Mayor to officially open the green for the season, 18/4/18, 4.00pm.</p>	<p><i>Mae'r gwahoddiad wedi ei dderbyn gan y Maer.</i> The invitation has been accepted by the Mayor.</p>

235	<i>Cymdeithas Gelf Aberteifi a'r Cylch: Gwahoddiad i'r Maer i agor yr arddangosfa yn Theatr Mwldan, 9/3/18, 6.00yh.</i> Cardigan Art Society: Invitation to the Mayor to officially open the exhibition, Theatr Mwldan, 9/3/18, 6.00pm	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei anfon ymlaen at y Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.
236	<i>Comisiwn Elusennau / Charity Commission: Ymateb i ymholiadau'r cyngor.</i> Response to the queries regarding the trustees' responsibilities of King George 5 th Playing Field.	<i>Nodwyd</i> Noted.
237	<i>Adroddiad o'r archwiliad mewnol gan y Cyng. Marilyn Farmer a'r Cyng. Wyn Jones ar 16/1/18.</i> Report of the Audit Trail conducted by Cllr Marilyn Farmer and Cllr Wyn Jones on 16/1/18.	<i>Diolchwyd i'r ddau gynghorydd am eu gwaith boddhaol.</i> Both councillors were thanked for conducting the audit efficiently.
238	<i>Zurich: Cadarnhad bod y murlun yn Ystafell Radley wedi ei gofrestru a'i yswirio am £10,000.</i> Confirmation that the mural housed in Ystafell Radley has been registered and insured for £10,000 with no additional cost. A revised copy of the schedule has been received.	<i>Nodwyd</i> Noted.

[221]—Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru: Mae copi o'r "Adroddiad Cynigion Drafft" a gyhoeddwyd yn Ionawr 2018 gan y Comisiwn ar gael gan y clerc. Mae'r Adroddiad yn ymdrin ag "Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ceredigion". Mae'r Comisiwn yn cynnig y dylai Cyngor Sir Ceredigion gynnwys 38 o aelodau yn hytrach na'r 42 presennol. Mae hyn yn arwain at gyfartaledd sirol arfaethedig o 1,384 o etholwyr fesul aelod. Cynigiodd Cyngor Sir Ceredigion ddiwygiad i'r ffin gymunedol rhwng Aberteifi a Chymuned y Ferwig gan drosglwyddo 380 o etholwyr o ran orllewinol Cymuned y Ferwig i ward Mwldan yn nhref Aberteifi. Mynegodd Cyngor Tref Aberteifi amheuan ynghylch cynnig argymelledig Cyngor Sir Ceredigion gan amlygu'r gwahaniaethau rhwng ardal wledig y Ferwig a wardiau trefol Aberteifi. Anfonwyd argymhellion y Cyngor Sir ymlaen i'r Comisiwn ar 3 Ebrill 2017 (*gweler Atodiad 5*).

Mae'r Comisiwn yn cynnig y dylai Tref Aberteifi ffurfio un ward etholiadol gyda 3,131 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan ddau gynghorydd.

Er gwybodaeth: Mae ward Mwldan ar hyn o bryd yn 1,485 o etholwyr, ward Rhyd-y-fuwch yn **881**, a ward Teifi yn **761**.

(Sylwer nad yw'r ystadegau uchod yn cyfateb yn y Saesneg yn yr Adroddiad swyddogol.)

Mae'r wybodaeth uchod ar gael ar dudalennau 9, 10 a 11 o'r Adroddiad.

Mae'r cyfnod i wneud cynrychiolaeth ac i anfon sylwadau yn dod i ben ar 16 Ebrill 2018.

[221]—Local Democracy and Boundary Commission for Wales: A copy of the "Draft Proposals Report" published in January 2018 by the Commission is available with the clerk. The Report is a "Review of the Electoral Arrangements of the County of Ceredigion". The Commission proposes that the number of councillors serving on Ceredigion County Council should be reduced from the present 42 members to 38. This results in a proposed county average of 1,384 electors per member. Ceredigion proposed an amendment to the community boundary between the Town of Cardigan and the Community of Ferwig. The Council recommended the transfer of 380 electors from the western part of Y Ferwig Community into the Mwldan ward of the Town of Cardigan. Cardigan Town Council expressed their reservations to Ceredigion County Council's recommended proposal highlighting the difference between the rural area of Y Ferwig and the urban wards of Cardigan. The recommendations of the county council were submitted to the Commission on 3 April 2017 (*see Appendix 5*).

The Commission proposes that the Town of Cardigan forms one electoral ward of 3,131 electors to be represented by two councillors.

The above information is available on pages 9, 10 and 11 of the Report.

For information: The existing Mwldan ward of Cardigan has 1,485 electors, the Rhyd-y-fuwch ward **884** and the Teifi ward **762** electors.

(The clerk noted that the above statistics do not correspond with the Welsh in the Report's publication.)

The period of representation and to receive observations ends on 16 April 2018.

Alan W. Haird: *Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau / Project Management & Development Officer*

Alun Williams: *Pennaeth Cefnogi Polisi / Head of Policy Support*

Eifion Evans: *Prif Weithredwr / Chief Executive*

Katy Spain: *Rheolwr Gwasanaethau Parcio / Parking Services Manager*

Louise Zerk: *Adain Cau Ffyrdd / Road Closures*

Marianne De Vries: *Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Section*

- 13. Adolygiad yr Asesiad Risg / Review of the Risk Assessment**
(copi wedi ei flaenyrru drwy e-bost, 30/1/18. (copy forwarded by e-mail on 30/1/18)
Cyflwynodd y clerc ddogfen y Risg Asesiad i'r aelodau. Yn dilyn trafodaeth fer, cytunwyd ar welliannau fel awgrymwyd gan y clerc a chynigiwyd gan y Cyng. Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies bod cynnwys y ddogfen gyda'r gwelliannau'n gywir. Roedd pawb yn gytûn. Arwyddwyd y ddogfen gan y Maer a'r clerc.
The clerk presented a copy of the schedule to the council. After a short discussion, it was agreed with the amendments as recommended by the clerk and proposed by Cllr Shan Williams and seconded by Cllr Clive Davies that the full amended content of the schedule be accepted as correct. All members were in favour. The document was duly signed by the Mayor and clerk.
- 14. Adolygiad Cynllun yr Iaith Gymraeg / Review of the Welsh Language Scheme**
(copi wedi ei flaenyrru drwy e-bost ym Mai 2017) (copy forwarded by e-mail, May 2017).
Cyflwynodd y clerc ddogfen Cynllun yr Iaith Gymraeg i'r aelodau. Yn dilyn trafodaeth fer, cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Trystan Phillips bod cynnwys y ddogfen yn gywir. Roedd pawb yn gytûn.
The clerk presented a copy of the Welsh Language Scheme to the council. After a short discussion, it was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Trystan Phillips that the full content of the document be accepted as correct. All members were in favour.
- 15. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.
Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 23 Ionawr ac i drafod (a) gohebiaeth Clwb Pêl-droed Aberteifi; (b) cais gan y Clwb Rygbi i osod clwyd rhwng y cyrtau tenis a'r Clwb Bowls.
Confirmation of 23 January Sub-committee Minutes and to discuss the correspondence received from (a) Cardigan Football Club; (b) application from the Rugby Club to place a gate between the tennis courts and the Bowls Club.
Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod cofnodion 23 Ionawr yn gywir.
Cllr Marilyn Farmer proposed that the 23 January minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr John Adams-Lewis.
Materion yn codi Matters arising
Awgrymwyd bod materion Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed yn cael eu trafod yn yr is-bwyllgorau nesaf (20 Chwefror).
It was recommended that all King George 5th Playing Field matters be discussed at the next sub-committee meeting (20 February).
***Menter Aberteifi:* Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod diweddar gan y Cyng. Marilyn Farmer. Dywedodd bod yr anghydfod rhwng y bwrdd a'r masnachwyr yn fater mewnlol a chaiff y ffeithiau eu hadrodd nôl gan y cynrychiolwyr pan fydd angen. Ychwanegodd bod y Cyng. Siân Maehrlein wedi ei henwebu'n ymddiriedolwraig.**
Menter Aberteifi: Cllr Marilyn Farmer submitted a report of the latest meeting. She stated that the dispute between the board and stallholders was an internal affair and that the council representatives would report back to council when required. She added that Cllr Siân Maehrlein had been nominated as a trustee of the board.
***Maes Sgrialu:* Caiff y brydles ei harchwilio gyda'r cyngor sir gyda thrafodaeth am gytundeb cynnal a chadw. Disgwylir £52,000 mewn grantiau. Mae £15,000 wedi ei glustnodi gan gyngor y dref. Rhagdybir y bydd y gwaith yn dechrau yn yr haf gydag agoriad posib ym mis Awst.**
Skateboard Park: The lease to be revised with the county council and the maintenance contract also to be discussed. Grants of £52,000 have been allocated. The town council has budgeted £15,000. It is anticipated that the work will commence in the summer with a possible August opening.
***Castell Aberteifi:* Mae trefniadau ar y gweill i ailedrych ar arwyddion brown.**
Cardigan Castle: Plans are afoot to reconsider the brown signs, especially from the Pembrokeshire perspective.
***Pwll Nofio Aberteifi:* Mae hysbysiadau allan ar y pryd i benodi rheolwr newydd.**
Cardigan Swimming Pool: Notices are presently being prepared advertising for a new manager.

16. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.
Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein**

(i) **Problemau parcio yn Felinban a Heol Helyg.**

Awgrymwyd bod angen hel gwybodaeth am berchnogion tir yr ardal. Gellir cael rhagor o wybodaeth am fapiau'r ardal oddi wrth swyddogion y cyngor sir: Eirian Jones, Is-Bennaeth Cynnal a Chadw Adeiladau, a Gerwyn Jones, Rheolwr Strydlun Trefol.

Dylid codi'r broblem o ymddygiad anghymdeithasol yng nghyfarfodydd PACT.

Parking problems in Felinban and Heol Helyg.

More information is required regarding land ownership in the area. Further information and an inter-active map can be obtained from county council officers: Eirian Jones, Assistant Chief Building Maintenance Officer and Gerwyn Jones, Urban Streetscene Manager and Head of Municipal and Environmental Services.

The anti-social behaviour problems should be raised at PACT meetings.

(ii) **Hyfforddiant am ddefnyddio'r diffribilwyr.**

Dywedodd y Cyng. Clive Davies ei fod yn gobeithio trefnu hyfforddiant yn Neuadd y Dref gyda swyddogion Calonnau Cymru.

Training for the use of defibrillators.

Cllr Clive Davies is in the process of organising training in the Guildhall with Welsh Hearts.

(b) **Y Cyng. / Cllr Steffan Morgan**

(i) **Cwyn am sbwriel wedi ei adael ym maes parcio Stryd y Cei.**

Bu'r Cyng. Graham Evans yno yn clirio'r safle yn cynnwys poteli'n bennaf. Er gwybodaeth: Rhif ffôn cwmni LAS 01570 421421.

Complaints at the overspill of debris and rubbish at the Quay Street car park.

Cllr Graham Evans cleared the site of the bottle overspill.

For future reference, please contact LAS on 01570 421421.

(ii) **Lleoliad a dyddiad gosod plâc "Yr Hoelion Wyth" i anrhydeddu campau cychod cyflym Jonathan Jones.**

Cytunodd y Cyng. Morgan gysylltu gyda pherchennog Gwesty'r Grosvenor am hawl i osod y plac ar fur yr adeilad.

Location and date to place the plaque to honour Jonathan Jones' powerboat achievements.

Cllr Morgan agreed to contact the owners of the Grosvenor Hotel regarding the placing of the plaque on the wall of the premises.

(c) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies**

(i) **Bydd Ben Lake AS yn agor arddangosfa Cymdeithas Aberteifi Society yn swyddogol yn y Gyfnewidfa Yd, 19 Chwefror am 10.00yb.**

Ben Lake MP will officially open the Cymdeithas Aberteifi Society exhibition at the Corn Exchange on 19 February at 10.00am.

(iv) **Caiff app Aberteifi ei lansio yn y Gyfnewidfa Yd ar 21 Chwefror am 7.00yh.**

The Cardigan app will be officially launched at the Corn Exchange on 21 February at 7.00pm.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.10yh

There being no further business to discuss, the Deputy Mayor closed the meeting at 8.10pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date